



Urdd

Xher
FUTURE
COALITION



वेल्स इन इंडिया
Cymru yn India
Wales in India



Nod y Daith | Purpose

Taith i 10 o ferched ifanc o Gymru i deithio i India a chael profiadau yn rhan o brosiect Llywodraeth Cymru - 'Blwyddyn Cymru yn India' dan adain ymgyrch yr Urdd #FelMerch.

A journey for 10 young women from Wales to travel to India and gain experiences as part of the Welsh Government's 'Year of Wales in India' project under the umbrella of the Urdd campaign #FelMerch.

- Gweithio gyda 'Her Future Coalition' yn ychwanegu at waith dyngarol yr elusen yn Kolkata gan gynnig profiad gwirfoddoli bythgofiadwy
- Cyfnewid diwylliannol
- Dysgu am a mwynhau harddwch, diwylliant a hanes India
- Working with 'Her Future Coalition' contributing to the humanitarian work of the charity in Kolkata by offering an unforgettable volunteering experience
- Cultural Exchange
- Learn and enjoy the beauty, culture and history of India

Partneriaid | Partners



Mae Her Future Coalition yn elusen sy'n helpu i adeiladu dyfodol disglair ac annibynnol i oroeswyr a'r merched mwyaf bregus yn India a Nepal.

Ers 2005, mae Her Future wedi bod yn creu newid pwerus a chadarnhaol ym mywydau menywod a merched.

Maen nhw'n torri'r cylch o dlodi ac ecsbloetio drwy ddarparu addysg – a'r holl wasanaethau sy'n cefnogi addysg.

Her Future Coalition is a charity that helps build bright, independent futures to survivors and the most vulnerable girls in India and Nepal.

Since 2005 Her Future has been creating powerful and positive change in the lives of women and girls.

They break the cycle of poverty and exploitation by providing education – and a full range of services that support education.

Mwy | More: **[Her Future Breaking the Cycle of Poverty - Her Future Coalition](#)**

Mustard Seed Library

Dyma Maura - mae hi'n gweithio fel rhan o dîm Her Future Coalition. Mae hi wedi trosi un o'r ystafelloedd yn ei chartref yn llyfrgell o'r enw 'Mustard Seed', i blant o'i chymdogaeth gyfarfod bob dydd Sul. Cyfle iddynt ddysgu darllen ac ysgrifennu, gan roi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn eu haddysg.

This is Maura - she works as part of Her Future Coalition's team. She has converted one of the rooms in her home in to a library called 'Mustard Seed' for children from her neighbourhood to meet every Sunday, and learn to read and write, giving them the skills needed to thrive in education.



Rhaglen | Programme Lleoliadau | Locations:



Mustard Seed Library

Ek Tara Middle School

Culcatta Foundation

Suchana

Her Future Coalition Learning Centre

Nabidasha

Kidderpore

Ek Tara Middle School

Sefydliad sy'n ymbweru merched ifanc, a menywod o gymunedau yn Kolkata, India, drwy ddarparu sgiliau amrywiol a chyfleoedd i ddatblygu yn academiaidd, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol i fenywod, gan eu galluogi i ennill annibyniaeth ariannol. Mae'r sefydliad yn hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ac arweinyddiaeth gymunedol, er mwyn ceisio newid agweddau cymdeithasol.

Mae mwyafrif y merched sydd yn mynd i ysgol EK Tara yn dod o Topsis, un o slymiau tlotaf yn Kolkata. Mae merched yma mewn perygl uchel o fasnachu pobl, priodas ifanc a thrais domestig. Mae Topsis yn gartref i filoedd o deuluoedd, ac yn bennaf mae'n gymuned Fwslimaidd.

Oherwydd bod teuluoedd mor fawr, tlodi, a normau diwylliannol, nid ydi cael mynediad i addysgu i fenywod a merched yn flaenoriaeth. Mae 250+ o ferched y gymuned yn cael addysg o'r radd flaenaf yn yr ysgol Ek-tara, gyda miloedd o ferched wedi derbyn addysg yma dros y blynyddoedd.

An organization that empowers young girls and women from communities in Kolkata, India, by providing them with various skills and opportunities to develop academically, as well as vocational training for women, enabling them to gain financial independence. The organization promotes gender equality and community leadership in an effort to change social attitudes.

The majority of the girls who attend the EK Tara school come from Topsis, one of the poorest slums in Kolkata. Girls here are at high risk of human trafficking, child marriage, and domestic violence. Topsis is home to thousands of families and is predominantly a Muslim community.

Due to large family sizes, poverty, and cultural norms, access to education for women and girls is not a priority. Over 250 girls from the community receive top-quality education at the Ek Tara school, with thousands of girls having received education there over the years.

Nabadisha

Prosiect Plant y Stryd a'r Slym - 'Nabadisha' yw menter gan Women's Interlink Foundation a Heddlu Kolkata.

Dechreuodd y rhaglen yn 1997 ac mae bellach yn cynnwys 35 o ganolfannau, gyda 13 ohonynt yn cael eu hariannu gan Her Future Coalition. Mae cyfanswm o 1600 o blant yn cael cymorth drwy'r rhaglen Nabadisha.

Mae plant yn dod i'r Canolfannau bob dydd ar ôl ysgol. Maent yn derbyn cymorth addysgol, cynghori, bwyd maethlon, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu grymuso fel ioga, chwaraeon, drama, canu, dawns, cyrsiau galwedigaethol ac ati.

Caiff gwersylloedd iechyd eu trefnu mewn cydweithrediad â grwpiau meddygol fel bod plant yn derbyn profion iechyd a gofal meddygol am ddim.

The Street and Slum Child Project - 'Nabadisha' is an initiative of Women's Interlink Foundation and the Kolkata Police Department.

The program was started in 1997 and now has 35 centers, 13 of which are funded by Her Future Coalition. A total of 1600 children are served through the Nabadisha program.

Children come to the Centers every day after school. They receive education support, counseling, nutritious food, and take part in empowering extracurricular activities such as yoga, sports, drama, singing, dance, vocational courses, etc.

Health camps are organized in cooperation with medical groups so children receive free check-ups medical care.

Suchana - Hedodonga

Ardal llwythol anghysbell yn Shantiniketan, Gorllewin Bengal, yw Hedodonga Village. Mae Suchana wedi wedi bod yn gweithio yn y rhanbarth hwn ers dros 20 mlynedd, gan ddarparu cymorth addysg, i baratoi plant ar gyfer addysg prif ffrwd, i'w helpu i lwyddo yn eu haddysg, ac i cadw eu hiaith leiafrifol - Santal - yn fyw ac yn ffynnu.

Nid yw'r plant wedi cael unrhyw addysg cyn dod i Suchana. Maent ymhlith y plant tlotaf a mwyaf bregus yn India.

Mae plant sy'n mynd drwy addysg Suchana yn cael cyfle gwell i lwyddo mewn bywyd.

- Mae pob plentyn yn gwybod sut i ddarllen ac ysgrifennu yn eu hieithoedd llwythol yn ogystal â Bengaleg.
- Priodasau a masnachu yn gynnar yn cael eu lleihau.
- Gall plant gwblhau eu haddysg heb gael eu tynnu oddi wrth eu teuluoedd
- a diwylliannau.
- Mae plant yn gymwys mewn sgiliau TG ac yn defnyddio technoleg i wella eu dysgu

Hedodonga Village is a remote tribal area in Shantiniketan, West Bengal.

Suchana has been working in this region for over 20 years, providing educational support to prepare children for mainstream education, to help them succeed in their studies, and to keep their minority language – Santal – alive and thriving.

The children have had no prior education before coming to Suchana. They are among the poorest and most vulnerable children in India.

Children who go through Suchana's education have a better chance of succeeding in life.

- Every child learns to read and write in their tribal languages as well as in Bengali.
- Early marriage and trafficking are reduced.
- Children are able to complete their education without being separated from their families and cultures.
- Children are skilled in IT and use technology to enhance their learning.

Kidderpore

Mae Her Future Coalition wedi bod yn noddi 20 o blant yn Kidderpore ers 17 mlynedd.

Mae'r grŵp noddi presennol wedi bod gyda nhw ers 7 mlynedd. Mae nifer bellach yn y coleg, yn astudio busnes a nyrsio, ac yn gwneud yn eithriadol o dda. Mae Maura Hurley, Cydlynnydd Noddi HFC, yn ymweld yn rheolaidd â'r plant a noddir, gan gynnig dosbarthiadau celf, gwersi Saesneg, a gweithgareddau cyfoethogi eraill i helpu i ddatblygu addysg y plant bregus ymhellach.

Mae Kidderpore wedi'i leoli yn yr ardal hynaf a thlotaf o bum prif ardal golau coch Kolkata.

Mae Her Future Coalition hefyd yn gweithredu 'Siop Arbed', sy'n cael ei rhedeg gan fenywod y gymuned, gan roi ffynhonnell incwm iddynt i fod yn hunangynhaliol.

Her Future Coalition has been sponsoring 20 children in Kidderpore for the past 17 years. The current sponsorship group has been with them for 7 years. Several are now in college, studying business and nursing, and doing extremely well. Maura Hurley HFC's Sponsorship Coordinator visits the sponsored children regularly, offering art classes, English instruction, and other enrichment activities to help further the vulnerable childrens education.

Kidderpore is located in oldest and poorest area of Kolkata's five major red light areas Her Future Coalition also operates a 'Thrift Shop' run by community women, giving them an income stream to be self-sufficient.

GWEITHGAREDDAU | ACTIVITIES



CHWARAEON | SPORTS

Cyflwyno gemau 'Chwarae yn Gymraeg' sef adnodd gan yr Urdd i gyflwyno'r iaith Gymraeg i gemau mewn ffordd hwyliog i blant a phobl ifanc ddysgu ein hiaith.

Introducing "Chwarae yn Gymraeg" games - a resource created by the Urdd to introduce the Welsh language through games in a fun way, allowing children and young people to learn our language.



CELF A CHREFT ARTS AND CRAFT

Defnyddio celf fel ffordd i'r pobl ifanc rhannu teimladau drwy llun a lliw gan gyflwyno'r iaith Gymraeg gyda lliwiau a rhifau.

Using art as a way for the young people to share feelings through pictures and colours, introducing the Welsh language with colours and numbers.



DIWYLLIANNOL CULTURAL

Cyflwyno Cymru, gan roi hanes amdanom ni fel gwlad a ni Cymry. Roedd y plant yna yn creu cardiau post, gan ysgrifennu yn Gymraeg a'u hiaith nhw o'r hyn maent wedi dysgu am Gymru.

Cyflwynwyd dawnsio gwerin draddodiadol, gydag Elinor un o'r merched yn chwarae ffidl (oedd yn ategiad arbennig iawn)

We introduced Wales, giving a story about us as a country and us Welsh. The children then created postcards, writing in Welsh and their own language from what they had learned about Wales.

Traditional folk dancing was also presented with Elinor, one of the girls playing the violin (which was a very special addition)



COGINIO | COOKING

Cyfle i neud cyfnewid rysâit bwyd traddodiadol o Gymru ac India, gan goginio gyda merched ar raglenni oedd yn cynnig cyfle i ferched bregus ddysgu sgiliau newydd er mwyn cael bywoliaeth annibynnol.

An opportunity to exchange traditional Welsh and Indian food recipes, cooking with women on programmes that offered vulnerable women the opportunity to learn new skills in order to earn an independent living.

Dyddiadur taith yr Urdd i

India

Eleni cafodd deg aelod o'r Urdd eu dewis i fynd ar daith ddynarol i India er mwyn cefnogi gwaith elusen o'r enw Her Future Coalition.

Roedd y daith yn gyfle i'r aelodau gefnogi plant a merched bregus, yn ogystal â rhannu iaith a diwylliant Cymru drwy gynllun hwyliog 'Chwarae yn Gymraeg' yr Urdd.

Un o'r deg a aeth draw i India oedd Martha Owen o'r Felinheli, ac fe rannodd ei dyddiadur hi o'r profiad gyda **BBC Cymru Fyw**. Dyma i chi flas o'r daith!

Dydd Gwener, 21 Chwefror

Diwrnod y daith wedi dod! Roedd 'na ddigon o gyffro wrth gyfarfod y criw ben bore 'ma yng Nghaerdydd i ddal y bws i faes awyrr Heathrow.

'Da ni gyd yn teimlo mor lwcus i gael bod yn rhan o'r daith gyda'r Urdd a'n edrych 'mlaen i brofi diwylliant India a dysgu mwy am waith elusen Her Future Coalition.

Dydd Sadwrn, 22 Chwefror

Roedd hi'n daith hir i Dubai ac yna i India (a thro cynta' ar awyren i sawl un o'r criwt!).

Roedd cyrraedd Maes Awyrr Kolkata yn brofiad swreal gyda gwres, bwrllwm a swm y ddinas yn fy nharo i'n syth. Gafon ni groeso cynnes iawn gan gwpwl o'r elusen a derbyn *Varmala* (cadwyni blodau) yr un i wisgo.

Neidio i fewn i'r bws at y gwesty wedyn a dreifio gwyllt y ddinas yn sicr wedi'n deffro ni ar ôl y daith hir! Ond roedd cael gwibio trw'r ddinas rhwng y bysus lliwgar, y motobeics a'r *tuktuks* yn anhygoel!

Yn y gwesty, gafon ni gyfle i gyfarfod Maura, sy'n gweithio i'r elusen ac yn byw yn Kolkata, fydd yn ein tywys am y pythefnos nesaf.

Dydd Sul, 23 Chwefror

Ar ôl dod dros chydig o'r jet-lag, cerddon ni draw i dŷ Maura. Roedden ni i gyd wedi'n gwirioni hefo'r nawws croesawgar yno, gyda Maura'n defnyddio ei stafell fyw fel llyfrgell i blant yr ardal.

Daeth criw ifanc o'r ardal draw i'r llyfrgell i'n cyfarfod. Mi odd hi'n brofiad mor braf dod i adnabod nhw a rhannu'n diwylliant hefo'n gilydd, cael chwarae gemau yn Gymraeg - a chael dysgu chydig o Hindi hefyd!



Dydd Llun, 24 Chwefror

Diwrnod un yn Ysgol Ek Tara heddiw (Ysgol 'Un Seren' yn Gymraeg) - sefydliad anhygoel sydd wedi'i gefnogi gan Her Future Coalition, i roi addysg o safon uchel i ferched yr ardal. Heb yr ysgol yma, byddai llawer o ferched yr ardal heb fynediad hawdd at addysg.

Mi oedd awyrgylch yr ysgol mor braf, a mae'n anodd dychmygu bod cyfnod wedi bod heb yr ysgol arbennig hon. Roedd gan y disgyblion lwyth o egni a diddordeb yn ein hiaith a'n diwylliant ac wrth eu boddau'n dysgu bach o ddawnsio gwerin!

Dydd Mawrth, 25 Chwefror

Diwrnod arall o rannu diwylliant a phrofi awyrgylch anhygoel Ek Tara heddiw. Mi gafoni gyfle i gyfarfod y merched hŷn sy'n gweithio yn adran 'Ek Tara Creates' yn creu crefftwethiau, a chael cyfle i brynu rhai i gefnogi'r sefydliad (a chael anrhegion i'r teulu!).

Fy hoff ran o heddiw oedd dysgu staff y gegin sut i goginio *Caennau Cri* a chael sgwrsio hefo nhw am yr ardal a'u diwylliant a'u bywyd o ddydd i ddydd. Mae mor braf dod i adnabod pobl o gefndir a diwylliant hollol wahanol i'n un ni yng Nghymru.

Ar ôl gorffen ein sesiynau, cafon ni hefyd gyfle i brofi chydig mwy o ddiwylliant Kolkata drwy grwydro marchnad leol a chael taith ar un o'r 'ToTos'!

Dydd Mercher, 26 Chwefror

Heddiw, roedden ni i gyd yn gyffrous i gychwyn ar ein taith i ardal mwy gwledig o India, sef Santiniketan.

Cyn dal y trên, aethon ni draw i Apni Kutir - gofod saff i ferched dderbyn hyfforddiant er mwyn gallu bod yn annibynnol yn ariannol. Mae llawer o ferched yr ardal yn aml yn sownd i fywyd domestig heb obeithion o gael gwaith a rhyddid, felly roedd gweld gwaith gwyh y ganolfan yma yn hollol ysbrydoledig.

Oedd hi'n brofiad gwyh derbyn Mehendi (Henna) gan Selma, un o'r merched ifanc oedd wedi hyfforddi yn y ganolfan a bellach yn derbyn cyflog ei hun drwy wneud Mehendi mewn partion a phriodasau.

Draw i ddal trên o orsaf Kolkata wedyn, ac am brofiad! Gymaint o fwrllwm yn yr orsaf gyda theithwyr yn cario bob math o nwyddau, bwyd a phlanhigion.



वेल्स इन इंडिया
Cymru yn India
Wales in India



Dydd Iau, 27 Chwefror

Diwrnod un yn Santiniketan, ac mi gafon ni fwyd hyfryd yn y gwyrdd: dhal, roti, reis a paneer. Ma' gwlâu Indiaidd yn lot caletach na rhai adra felly roedd hynna'n 'chydig o culture shock' i'r criw, ond gafon ni ddigon o gwsg a'n barod am ddiwrnod o weithgareddau!

Y stop cyntaf oedd Canolfan Suchana. Gafon ni gyfarfod Ishani, merch mor ysbrydolledig - ei rhieni hi wnaeth gychwyn Suchana i roi gofod i'r rhai mwyaf difreintiedig yn yr ardal. Fe gafon ni groeso traddodiadol a derbyn 'Gamcha', sgarffiau fel symbol o groeso a lletygarwch.

Yn yr ardal, roedd yna lwyth o ieithoedd brodorol gwahanol fel Santali, Kora a Kurukh - a roedd gan sesiynau addysgiadol Suchana ffwcs mawr ar roi llais i ieithoedd brodorol y plant.

Oedd hi mor ddiddorol gweld sut oedd athrawon Suchana yn creu adnoddau ei hunain i'r ieithoedd yma fel bod y plant yn cael ymarfer nhw ar ben y Saesneg a Bengali fydden nhw'n dysgu yn yr ysgol.

Dydd Gwener, 28 Chwefror

Heddiw, gafon ni fynd allan i un o'r pentrefi gwledig gyda 'Mobile Library' Suchana. Roedd Ishani yn esbonio bod plant ddim yn cael mynd a llyfrau adra o ysgolion y llywodraeth, felly mae'r gwasanaeth yma mor bwysig i roi hwb i blant i ddarllen a gwella'u llythrennedd tu allan i'r ysgol.

Yn y nos, gafon ni ymuno â sesiwn chwaraeon y plant ar un o'u caeau chwarae. Roedden nhw wrth eu boddau yn dysgu dawns Mistar Urdd! Oedd hi'n brofiad mor swreal wedyn cerdded y plant adra i'w cartrefi drwy'r caeau reis a'r toau gwellt.

Ardal mor wahanol i adra, a chornel mor heddychlon o'r byd - wir yn brofiad bythgofiadwy cael gweld bywyd dydd-i-dydd trigolion Santiniketan.

Dydd Sadwrn, 1 Mawrth

Dydd Gŵyl Dewi heddiw a'n diwrnod olaf yn Santiniketan! Roedd yr het draddodiadol Gymreig yn mynd lawr yn dda hefo plant Suchana!

Aethoni draw i farchnad leol a chrwydro drwy'r

cannoedd o stondinau yn gwerthu crefftiau a dillad anhygoel.

Dat y trên yn ôl i Kolkata pnawn 'ma, a phawb yn hel atgofion yn barod o'n hamser yn Santiniketan - profiad a hanner!

Dydd Sul, 2 Mawrth

Diwrnod rhydd heddiw i ddad-fflino o'r tridiau prysur yn y wlad. Roedd bod yn ôl yn y ddinas yn g'neud i mi sylwi pa mor ddistaw a heddychlon oedd Santiniketan - mor wahanol i swm a bwrllwm Kolkata.

Gafon ni daith ar gwch heddiw ar yr afon Ganges - mae pob dim yn Kolkata i weld wedi'u addurno a'u peintio mor ofalus hefo gymaint o fanylder, a doedd y cwch yma ddim gwahanol!

Dydd Llun, 3 Mawrth

Heddiw cafon ni ymweld â Chanolfan Ddysgu Her Future Coalition. Hwn oedd un o'r profiadau mwyaf diddorol o'r trip i mi.

Mae'r ganolfan wedi'i sefydlu jyst tu allan i'r Red Light District, Sonagachi (y mwyaf yn Asia). Felly mae llawer o'r merched sy'n gweithio yn y ganolfan, ar y derbynfa, yn yr adran creu gemwaith neu yn 'Sari Bari' (ail-ddednyddio Saris i greu a gwerthu

bagiau cynaliadwy), yn ferched sydd wedi dod o fod yn gwneud gwaith rhyw yn Sonagachi.

Cafon ni gyfle i sgwrsio gyda Srabani Sarkar Neogi, sylfaenydd Hamari Muskan - sefydliad anhygoel yn Ne Kolkata sy'n gweithio gyda merched a phlant yn y diwydiant rhyw drwy gydol eu bywydau i roi cefnogaeth, gofodau saf, ymyrraeth lechyd meddwl a opsiynau arall iddyn nhw allu gadael y gwaith peryglus a ecsbloetio yma.

Dydd Mawrth, 4 Mawrth

Bore 'ma, gafon ni daith cerdded hynod o ddiddorol yn dysgu am 'White Town' Kolkata a hanes Cwmni India'r Dwyrair (East India Company) ac effaith ddychrynlyd 'colonialism' Prydeinig ar y ddinas a'i phobl.

Yn y p'nawn, aethoni draw i Nabadisha - swyddfa heddiw sydd hefyd yn ganolfan i blant difreintiedig yr ardal gael addysg a weithgareddau all-gyrsiol fel chwaraeon, yoga, dawns a cherddoriaeth.

Mi oedden ni i gyd wedi gwirioni hefo'r fenter yma a'n gweld yn syth gymaint o les oedd y plant yn cael allan ohono. Gafon ni brofiad gwych yn dod i adnabod y criw yn Nabadisha a chael ymuno yn rhai o'u sesiynau.

Dydd Mercher, 5 Mawrth

Ein diwrnod olaf ni yn India! Gafon ni gyfle heddiw i ymweld â siop *thrift* Her Future Coalition yn Kidderpore - prosiect gwyb wedi'i gychwyn gan Maura ein arweinydd.

Mae'r trip wedi gwibio heibio ond 'da ni i gyd yn dod adra hefo gymaint o brofiadau gwerthfawr, a pherspectif newydd ers profi diwyllianau a ieithoedd India a dod i adnabod gymaint o bobl

anhygoel yn ystod y daith.

Mae'n un peth dychmygu a thrio uniaethu gyda phrofiadau pobl o gefndir hollol wahanol i dy un di, ond mae dod i adnabod a sgwrsio gyda phobl a phlant Kolkata a Santiniketan un-i-un wedi bod yn brofiad anhygoel i alluogi i ni gyd ddeall gymaint mwy am eu bywydau, teimladau, a phroblemau a'i rol yng nghydestun problemau systematig y wlad.

Dydd Iau, 6 Mawrth

Taith hir o'n blaenau heddiw i gyrraedd yn ôl i Gymru a phawb yn barod i wynebu'r 'jet-lag' unwaith etol!

'Da ni i gyd yn teimlo mor ddiolchgar i'r Urdd a Her Future Coalition am drefnu'r daith anhygoel yma fydd yn aros hefo ni am byth, i'r holl sefydliadau am agor eu drysau a'n croesawu ni i ddysgu mwy am eu gwaith, ac i Maura ein arweinydd am ein ysbrydoli yn ddyddiol drwy ddangos ei brwdfrydedd at achos Her Future Coalition i wella bywydau'r rhai mewn tldi ym mha bynnag ffordd bosib - dynes anhygoel!

Gobeithion cyn y daith | Expectations

“Dwi’n siŵr fydd hi’n brofiad bythgofiadwy i gael ymweld ag India a dysgu am y materion mae’r elusen yn helpu gyda. Dwi’n gobeithio magu fwy o hyder drwy arwain sesiynau gyda phlant a phobl ifanc yn India, a dysgu am eu sefyllfaoedd a’r materion sy’n bwysig iddyn nhw, fydd yn agoriad llygad i mi.”

“I’m sure it will be an unforgettable experience to visit India and learn about the issues the charity helps with. I hope to gain more confidence by leading sessions with children and young people in India and learning about their situations and the issues that are important to them, which will be an eye-opener for me.”

“Deallaf fy mod i wedi cael magwraeth gysurus iawn, ond hap a damwain yw hyn, felly rwy’n mawr obeithio y byddaf wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd rhywun arall sy’n llai ffodus. Gobeithiaf y bydd y cyswllt yn sbardun i mi wneud mwy o waith dyngarol yn y dyfodol. Rwyf yn edrych ymlaen at ymestyn fy ngorwelion a fy mhersbectif o’r byd. Efallai y byddaf wedi gwneud ffrindiau oes drwy’r profiad? Bydd y profiad yn siŵr o ysgogi sawl gwers ar lawr y dosbarth pan fyddaf yn dychwelyd i fy mywyd fel myfyrwraig athrawes gynradd. Mae’n siŵr bydd yr atgofion yn para oes.”

“I understand that I’ve had a very comfortable upbringing, but that is purely by chance, so I sincerely hope that I will have made a difference to the life of someone less fortunate. I hope that the connection will be a catalyst for me to do more humanitarian work in the future. I’m looking forward to broadening my horizons and my perspective of the world. Maybe I’ll have made lifelong friends through the experience? The experience is sure to inspire many lessons in the classroom when I return to my life as a student primary school teacher. The memories will surely last a lifetime.”

Gobeithion cyn y daith | Expectations

“Rwy’n gobeithio cael gwell dealltwriaeth o rôl a phrofiadau menywod mewn cymunedau gwahanol, yn enwedig sut mae cyfreithiau a normau cymdeithasol yn dylanwadu ar eu bywydau. Trwy gyfarfod â menywod yn India, rwy’n gobeithio dysgu sut maen nhw’n goresgyn rhwystrau, meithrin cryfder a chwarae rhan hanfodol yn eu cymunedau. Bydd hyn yn fy helpu i werthfawrogi’r amrywiaeth mewn profiadau menywod ledled y byd, ac yn fy ysbrydoli i gefnogi hawliau a chyfleoedd cyfartal i fenywod ym mhob man. Rwy’n chwilio am ryngweithio gwirioneddol sy’n dathlu cryfder menywod a’u cyfraniadau”

“I hope to gain a better understanding of the role and experiences of women in different communities, especially how laws and social norms influence their lives. By meeting women in India, I hope to learn how they overcome barriers, build strength, and play a vital role in their communities. This will help me appreciate the diversity of women’s experiences around the world and inspire me to support equal rights and opportunities for women everywhere. I am seeking genuine interaction that celebrates the strength of women and their contributions”

“Profiad newydd, agoriad llygad i ddiwylliant a ffordd o fyw hollol wahanol a deall mwy am India mewn ffordd uniongyrchol. Dealltwriaeth ddyfnach o fywyd merched yn India ac ar draws y byd. Blasu bwydydd Indiaidd. Cwrdd â phobl o bob rhan o’r byd. Dod i’r afael â thraddodiadau, ieithoedd, arferion, crefyddau, ac arferion cymdeithasol sy’n gwneud diwylliant Indiaidd mor amrywiol a chyfoethog.”

“A new experience, an eye-opener to a completely different culture and way of life, and a chance to understand more about India in a direct way. A deeper understanding of the lives of women in India and around the world. Tasting Indian foods. Meeting people from all over the world. Engaging with the traditions, languages, customs, religions, and social practices that make Indian culture so diverse and rich”

Gobeithion cyn y daith | Expectations

“Dwin frwd iawn i herio fy hun a datblygu sgiliau hollol newydd a throsglwyddadwy. Gobeithiaf fydd y daith yn helpu mi i ailgysylltu a fy hunaniaeth a hefyd cefnogi fy niddordeb o weithio yn y maes seicolegol yn y dyfodol”

“I am very eager to challenge myself and develop completely new and transferable skills. I hope the trip will help me reconnect with my identity and also support my interest in working in the field of psychology in the future”

“Gobeithiaf werthfawrogi'r hyn sy'n wahanol a thebyg rhwng ein diwylliannau a gweithio yn uniongyrchol gyda menywod a phobl ifanc yn Kolkata. Yn sicr, gobeithiaf wneud gwahaniaeth ym mywydau merched Indiaidd a chynnig cyfleoedd iddynt ehangu eu gorwelion.”

“I hope to appreciate what is different and similar between our cultures and to work directly with women and young people in Kolkata. Certainly, I hope to make a difference in the lives of Indian women and to offer them opportunities to broaden their horizons.”

Geiriau cafodd ei ddefnyddio i egluro y profiad | Words used to describe the visit

- Agoriad llygad | Eye-opening
- Ysbrydoledig | Inspiring
- Trawsnewidiol | Transformative
- Emosiynol | Moving
- Cynhesol | Heartwarming
- Pwerus | Powerful
- Addysgiadol | Educational
- Byth gofiadwy | Memorable
- Newidiol i'r bywyd | Life-changing
- Codi calon | Uplifting
- Grymuso | Thought-provoking
- Myfyriol | Empowering
- Lliwgar | Colourful
- Diolchgar | Thankful
- Unigryw | Unique
- Anhygoel | Amazing
- Pwysig | Important
- Hwyl | Fun

Adborth y pobl ifanc ar ôl y daith | Feedback from the young people after the visit

“Mae’r profiad wedi rhoi mwy o hyder i mi deithio yn y dyfodol. Mae hefyd wedi fy ysbrydoli i roi cynnig ar ddysgu Hindi.

Rwyf wedi ennill mwy o brofiad gwaith drwy weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac wedi cael cipolwg ar y buddion o weithio o fewn elusennau. Yn ogystal, mae’r profiad wedi ehangu fy mhersbectif ac wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor aml rwy’n cymryd pethau yn ganiataol.”

“The experience has given me more confidence to travel in the future. It has also inspired me to try learning Hindi.

I’ve gained more work experience through working with children and young people, and I’ve had an insight into the benefits of working within charities. Additionally, the experience has broadened my perspective and made me realise how often I take things for granted.”

Adborth y pobl ifanc ar ôl y daith | Feedback from the young people after the visit

“Cafodd y daith effaith enfawr arna i. Roedd yn brofiad hollol fythgofiadwy, gan roi cyfle i mi ymweld â gwlad na fyddwn, fel arall, yn gallu fforddio mynd iddi. Fe gefais y fraint o gyfarfod â phobl anhygoel o India a Chymru.

Roedd yr elfen wirfoddoli yn arbennig o agoriad llygad – fe welsom gymunedau ac ardaloedd o India na fyddwn byth wedi eu gweld pe bawn i wedi teithio ar fy mhen fy hun.”

“The trip had a huge impact on me. It was a truly unforgettable experience, giving me the opportunity to visit a country that I would not otherwise be able to afford to travel to. I had the privilege of meeting incredible people from both India and Wales.

The volunteering element was especially eye-opening – we saw communities and areas of India that I would never have seen if I had travelled alone.”

Adborth y pobl ifanc ar ôl y daith | Feedback from the young people after the visit

“Tro gyntaf i mi fynd ar awyren felly mae wedi rhoi'r hyder a'r deall i fi neud hynny eto. Hefyd wedi creu cysylltiadau gwyb gyda phobl newydd ac wedi dysgu am ddiwylliant gwahanol iawn. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y daith yma , teimlaf fy mod yn gwerthfawrogi pethau byddem yn cymeryd yn ganiataol fel arfer.”

“It was my first time flying, so it gave me the confidence and understanding to do it again. It also helped me build great connections with new people and learn about a very different culture. I'm very grateful for this experience – I feel that I now appreciate things that I would normally take for granted.”

“Ni fyddai'r daith hon wedi bod yn bosib heb gefnogaeth yr Urdd. Nid yw Kolkata yn lle y byddai rhywun fel arfer yn dewis mynd ar eu gwyliau, felly roedd cael y cyfle i brofi'r ddinas mewn awyrgylch diogel a chefnogol yn hanfodol. Rwy'n hynod ddiolchgar am y profiad unigryw hwn, a'r cyfle i'w brofi drwy enw a chefnogaeth yr Urdd.”

“This experience wouldn't have been possible without the support of the Urdd. Kolkata isn't somewhere you'd usually choose to go on holiday, so having the chance to experience the city in a safe and supportive environment was essential. I'm incredibly grateful for this unique opportunity and for being able to experience it through the name and support of the Urdd.”

“Mae dysgu am waith HFC wedi bod yn brofiad anhygoel. Roedd yn gyfle i ddysgu mwy am hanes merched bregys, a sut mae rhaglen Her Future Coalition yn helpu iddynt oresgyn tlodi. Roedd hyn yn wirioneddol agoriad llygad. Mae'r amser a dreuliais yn India wedi fy ysbrydoli i ymgymryd â mwy o waith dyngarol a gwirfoddoli, ar lefel rhyngwladol, yn ogystal â gwneud mwy i gefnogi cymunedau lleol.”

“Learning about the work of HFC has been an incredible experience. It was an opportunity to hear more about the stories of at-risk girls and how the Her Future Coalition program helps them overcome poverty. It was truly an eye-opener. My time in India has inspired me to engage in more humanitarian work and volunteering, both internationally and in supporting my local communities.”

Codi Arian | Fundraising

Yn rhan o godi ymwybyddiaeth am y daith, a rhoi nôl i'r elusen am gynorthwyo gyda'r daith, roedd yn ofynnol i'r merched gasglu £250 yr un i roi fel nawdd i'r elusen.

As part of raising awareness about the experience, and giving back to the charity for supporting the journey, the girls were required to raise £250 each to donate as sponsorship to the charity.

Targed | Target: £2,500

Fe ragorodd y merched ar bob disgwyliad ac fe godon nhw gyfanswm gwych o...

The girls exceeded all expectations and raised a grand total of....

Cyfanswm | Total: £6,084





4th April, 2025

Dear URDD Kolkata Team,

Thank you so much for giving of your time, talents and love to our kids in India. It was an incredibly special experience for the children and for the HFC staff to have you there. All of your activities delighted the women and children!

It was a unique experience for our kids to learn about Welsh culture through song, dance and games, and to share their culture with all of you. Such heartfelt and intentional sharing is a rare thing. We hope to continue our partnership and friendship with The URDD for years to come. You - as the inaugural team - have opened the door, and set a beautiful example for others to follow.

Thank you also for your amazing fundraising efforts! The funds you raised will have a transformational impact in the projects you visited.

At Suchana, your funding will pay for a full year of computer classes, as well as supporting a year of holistic education at the mobile school for 10 girls

At EkTara, your support will support nutritious lunches, uniforms and books for 25 girls for the year.

At the Street Child Project, you have provided a year of yoga, dance, gymnastics and art classes for the entire group (55 children)



At Kidderpore you have supplied food for childrens and women's group meetings for 6 months

Thank you so much for your compassion and support!

Warmest Regards

Sarah Symons
Founder and Executive Director

Gair o ddiolch | A word of thanks



DIOLCH

Tîm Rhyngwladol yr Urdd
Urdd's International Team



Urdd



वेल्स इन इंडिया
Cymru yn India
Wales in India

